



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau awdurdodau lleol

Hoffem gael eich barn ar newidiadau arfaethedig i  
absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau awdurdodau lleol  
o 2 wythnos i 26 wythnos

Dyddiad cyhoeddi: 3 Tachwedd 2020  
Camau i'w cymryd: 29 Rhagfyr 2020

**Trosolwg** Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (y rheoliadau) yn llywio absenoldeb mabwysiadu (ffurf yr absenoldeb a gymerir gan unigolyn sy'n mabwysiadu plentyn). Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn ymestyn y cyfnod o absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau cynghorau o bythefnos i 26 wythnos a, hyd y bo'n ymarferol, cysoni gweithdrefnau sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadu â'r rhai sy'n llywio absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb i.

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost:

[DLL.DemocratiaethAmrywiaethCydnabyddiaeth@llyw.cymru](mailto:DLL.DemocratiaethAmrywiaethCydnabyddiaeth@llyw.cymru)

Cwblhau ffurflen ar-lein

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2901/made/welsh>

**Manylion Cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Sesneg hefyd:**

<https://gov.wales/adoption-absence-local-authority-councillors>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cefndir

1. Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle caiff pawb gyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial a'i bod yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy swydd etholedig.
3. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod yr anawsterau o ran cydbwysu rôl heriol bod yn gynghorydd â chyfrifoldebau personol gofalu am anwyliaid. Gallai heriau'r rôl, sensitifrwydd llawer o'r gweithgareddau a gyflawnir a disgwyliad cynyddol y cyhoedd bod cynghorwyr 'ar ddyletswydd' 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos atal unigolion rhag rhoi ystyriaeth ddifrifol i fod yn gynghorydd.
4. Mae galluogi cynghorwyr i gymryd amser i ffwrdd mewn amrywiaeth o amgylchiadau yn rhan bwysig o'r dull a ddilynir yng Nghymru. Mae cynghorwyr yn elwa o gymryd amser i ffwrdd i gefnogi eu teuluoedd. Ystyrir bod absenoldeb teuluol yn sbardun sylfaenol i gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n cymryd rhan mewn democratiaeth leol drwy alluogi unigolion i gydbwysu gofynion y rôl bwysig y maent yn ei chwarae mewn cymdeithas â'r gofynion a chyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth feithrin cwlwm a datblygu perthynas â'u plant.
5. Dyna pam mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ddeddfu ar gyfer cyflwyno trefniadau absenoldeb teuluol i gynghorwyr.

## Y trefniadau presennol ar gyfer absenoldeb teuluol

6. Cyflwynodd Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") hawliau i gyfnodau o absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, pan fydd gan aelod hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
7. Roedd y cyfnodau o absenoldeb a gyflwynwyd fel a ganlyn.

• Absenoldeb mamolaeth	26 wythnos
• Absenoldeb newydd-anedig	2 wythnos
• Absenoldeb mabwysiadu	2 wythnos
• Absenoldeb mabwysiadu newydd	2 wythnos
• Absenoldeb rhiant	3 mis
8. Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau") a wnaed o dan Ran 2 o'r Mesur yn rhagnodi'r amodau i'w bodloni er mwyn i aelod fod â hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol a gwneud trefniadau gweithdrefnol mewn perthynas â phob math o absenoldeb.

9. Cafodd y cyfnodau o absenoldeb a nodir uchod eu seilio'n fras ar y darpariaethau absenoldeb ar gyfer swyddogion cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Y bwriad y tu ôl i'r dull hwn oedd sicrhau bod gan aelodau a swyddogion, cyn belled ag y bo modd, yr un trefniadau absenoldeb sylfaenol

### Y mater dan sylw

10. Ac eithrio'r cyfnod mwyaf ar gyfer absenoldeb mabwysiadu, mae'r rheoliadau'n parhau i fod yn unol â'r trefniadau ar gyfer swyddogion. Fodd bynnag, mae'r cyfnod sylfaenol o absenoldeb mabwysiadwyr sydd ar gael i swyddogion bellach yn 26 wythnos ac felly mae angen newid yr absenoldeb mabwysiadu presennol o 2 wythnos sydd ar gael i aelodau i 26 wythnos i gyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

### Y camau y bwriedir eu cymryd

11. Am y rheswm hwn, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu diwygio rheoliadau 2013 i gynyddu hawl y mabwysiadwydd i fod yn absennol o bythefnos i 26 wythnos. Bydd hyn yn golygu y bydd yr un faint o absenoldeb mamolaeth ag o absenoldeb mabwysiadu ar gael o dan reoliadau 2013.

12. Yn ogystal, bydd newidiadau cysylltiedig i'r rheoliadau yn:

- Creu gweithdrefnau ar gyfer caniatáu i aelod o awdurdod lleol amrywio dyddiad dechrau'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu a hyd y cyfnod hwnnw
- Darparu y caiff cyfnod o absenoldeb mabwysiadu ddechrau ar y diwrnod y lleolir y plentyn gyda'r aelod o awdurdod lleol i'w fabwysiadu neu hyd at 14 diwrnod cyn hynny. Caiff aelod o awdurdod lleol ddewis ar ba un o'r dyddiau hyn y bydd ei absenoldeb mabwysiadu yn dechrau.
- Creu gweithdrefn i aelod o awdurdod lleol ddod â'i absenoldeb mabwysiadu i ben
- Atal cymryd cyfnodau lluosog o absenoldeb mabwysiadu ar gyfer plant a fabwysiadwyd o dan yr un trefniant.
- Caniatáu i unigolion sy'n cymryd caniatâd mabwysiadu barhau â rhai dyletswyddau gyda chydysyniad cadeirydd neu aelod llywyddol yr awdurdod lleol.

13. Mae'r angen i rieni greu cwlwm â'u plant biolegol a meithrin perthynas gref â hwy wedi'i gydnabod ers blynnyddoedd lawer. I'r rhai sy'n penderfynu mabwysiadu plant, mae'r angen i greu cwlwm a meithrin perthynas yr un mor bwysig. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r mabwysiadu, gall fod heriau ychwanegol wrth ddatblygu'r cydberthnasau hyn. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi'r trefniadau absenoldeb mamolaeth a a mabwysiadu sylfaenol ar sail gyfartal. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb rhwng aelodau a swyddogion.

- **C1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn hyd absenoldeb mabwysiadu i gynghorwyr o 2 wythnos i 26 wythnos i gyd-fynd â threfniadau tebyg ar gyfer absenoldeb mamolaeth?**
- **C2: Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau a amlinellir ym Mharagraff 12 uchod?**

## Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

14. Mae adran 66 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ceisio dileu'r cyfyngiadau presennol ar y cyfnodau absenoldeb mwyaf ym Mesur 2011 ac yn galluogi'r rheoliadau i osod y rhain ar unrhyw lefel. Y rhesymeg dros y newid hwn yw galluogi'r rheoliadau i gael eu diweddarau'n haws wrth i bolisi ddatblygu yn y maes hwn.
15. Felly, mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn amodol ar y newidiadau yn adran 66 o'r Bil yn dod yn gyfraith.

### **Effaith y cynigion**

16. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi mwy o gyfle i rieni sy'n mabwysiadu gymryd absenoldeb i helpu i ddarparu amgylchedd cefnogol a meithringar i'w plant. Mae creu cwlwm a pherthynas gryf yn rhan bwysig iawn o ddod â babanod a phobl ifanc i amgylchedd teuluol newydd ac maent yn hanfodol i dwf a datblygiad y sawl a fabwysiadir. Mae'n darparu cysondeb rhwng y trefniadau absenoldeb ar gyfer unigolion sy'n gymwys i gael absenoldeb mamolaeth a'r rhai ar gyfer mabwysiadwyr.

### **Canllawiau**

Mae canllawiau statudol ar gael ar hyn o bryd ynghylch absenoldeb teuluol, a wnaed o dan adran 30 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd angen diwygio'r canllawiau o ganlyniad i'r newid arfaethedig i'r trefniadau absenoldeb teuluol.

Mae canllawiau wedi'u diweddarau sy'n cynnwys diwygiadau i adlewyrchu'r newidiadau a nodir ym mharagraffau 11 a 12 uchod wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

## **ABSENOLDEB TEULUOL**

### *Canllawiau Statudol a wnaed o dan Adran 30 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*

#### **Cyflwyniad**

1. Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn cyflwyno hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol i aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, pan fo gan aelod hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd awdurdod.

#### **Yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Mesur**

2. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 30 o'r Mesur. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r canllawiau hyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur.
3. Mae adran 23 yn caniatáu i aelodau sydd â hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod, gan gynnwys cyfarfodydd o'r weithrediaeth lle'n bo hynny'n gymwys, yn ystod cyfnodau o absenoldeb teuluol, yn unol â rheoliadau a wnaed o dan y Rhan hon o'r Mesur. Mae'r Mesur yn creu hawl i bum math o absenoldeb teuluol: absenoldeb mamolaeth; absenoldeb newydd-anedig; absenoldeb mabwysiadu; absenoldeb mabwysiadu newydd; ac absenoldeb rhiant.
4. Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (“y Rheoliadau”) wedi'u cyflwyno o dan Ran 2 o'r Mesur ac yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i aelod fod â hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol.
5. Mae gan aelod hawl i gyfnod o absenoldeb mamolaeth os yw'r aelod yn bodloni'r amodau rhagnodedig yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â hyd, dechrau, terfynu a chanslo absenoldeb mamolaeth. Mae'r Rheoliadau yn cyfyngu'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth i uchafswm o 26 wythnos.
6. Mae absenoldeb newydd-anedig yn ymwneud ag absenoldeb a roddir i “riant” plentyn ar wahân i'r fam. Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi amodau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng yr aelod a'r plentyn sy'n ofynnol er mwyn i'r aelod fod â hawl i gyfnod o absenoldeb newydd-anedig. Bwriad absenoldeb newydd-anedig yw caniatáu i berson sy'n bodloni'r amodau rhagnodedig gynorthwyo i ofalu am y plentyn a'r fam. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â hyd absenoldeb newydd-anedig a phryd y dylid ei gymryd.
7. Mae adran 26 yn creu hawl i absenoldeb mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â hyd, dechrau, terfynu a chanslo absenoldeb mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni, hyd absenoldeb o'r fath a phryd y gellir ei gymryd, yn amodol ar y ddarpariaeth na chaiff bara mwy na 26 wythnos. Mae adran 27 yn ymdrin ag absenoldeb mabwysiadu newydd sydd ar gael i aelod sy'n bodloni amodau rhagnodedig o ran ei berthynas â mabwysiadu.



8. Mae absenoldeb rhiant yn gymwys i aelod sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am blentyn (a oedd yn arfer bod yn gyfrifoldeb rhywun arall). Mae'r Rheoliadau'n galluogi aelod i fod yn absennol ar absenoldeb rhiant am gyfnod o hyd at dri mis.
9. Mae adran 29 yn galluogi rheoliadau i ddarparu ar gyfer gwaith gweinyddol unrhyw absenoldeb teuluol ynghyd â'r broses ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwynion am gamddefnyddio absenoldeb. Mae hefyd yn caniatáu i reoliadau ddarparu ar gyfer unrhyw ddyletswyddau y gall aelodau eu cyflawni yn ystod cyfnod absenoldeb teuluol.

## Canllawiau

10. Rhaid darllen y Mesur a'r Rheoliadau law yn llaw â'r canllawiau hyn.
11. Mae cyflwyno absenoldeb teuluol yn rhoi hawliau i aelodau sydd â babanod neu sy'n dod yn gyfrifol am ofalu am blant allu parhau fel aelodau, gydag absenoldeb cydnabyddedig, cyfreithlon, mewn ffordd agored, yn hytrach na bod yn destun beirniadaeth bosibl am beidio â chyflawni eu dyletswyddau fel aelodau.
12. Mae adran 8 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi swyddog fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth hwn wneud trefniadau i swyddog a benodir ganddynt i gyflawni swyddogaethau'r Pennaeth o dan y Mesur. Dylid ystyried bod pob cyfeiriad at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn y canllawiau hyn ac yn y Rheoliadau yn cynnwys unrhyw swyddog a benodir ganddynt i gyflawni'r dyletswyddau o dan y Mesur. Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi y bydd y Pennaeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ymdrin â hysbysiadau o absenoldeb teuluol.
13. Mae hwn yn amlwg yn faes a allai fod yn anodd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n ymwneud ag ymdrin ag aelodau yn ystod datblygiad pwysig iawn yn eu bywydau personol. Bydd angen i'r Pennaeth fod yn sensitif wrth gadw cofnodion, gan gynnwys y dyddiadau sy'n berthnasol i'r absenoldeb ac unrhyw amheuaeth bod yr hawl i absenoldeb teuluol yn cael ei gamddefnyddio. Dylai'r Pennaeth fod yn hyblyg wrth ymdrin ag unrhyw gais i amrywio dyddiadau dechrau neu orffen absenoldeb, cyn belled â'u bod o fewn y lwfans cyfan. O ran ymddygiad a allai arwain at dynnu'r hawl yn ôl, dylai'r Pennaeth fod yn sicr iawn o'r ffeithiau cyn dilyn y trywydd hwn.
14. Fel y nodir uchod, o dan y mwyafrif o amgylchiadau, rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig cyn unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol. Hefyd, mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofynion hysbysu eraill, fel o dan y darpariaethau cwyno. Byddai hysbysiadau ar ffurf e-bost neu fformat electronig arall yn bodloni'r gofyniad ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau.
15. O dan amgylchiadau cyffredin, ni ddylai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ofyn am dystiolaeth o feichiogrwydd neu ddyddiad disgwylidig yr enedigaeth oni bai bod rhesymau i amau a bod yr hysbysiad a roddwyd gan yr aelod yn amheus.
16. Nod absenoldeb newydd-anedig yw cynorthwyo partneriaid mamau i'w galluogi i gymryd cyfnod o absenoldeb yn ystod y 56 diwrnod cyntaf ar ôl geni plentyn.

17. Mae absenoldeb mabwysiadu yn rhoi'r hawl i aelodau i gyfnod absenoldeb o 26 wythnos. Mae'r hawl yn codi ar ddyddiad ffisegol lleoli plentyn gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu. Union ddyddiad lleoli'r plentyn sy'n bwysig ar gyfer dechrau'r absenoldeb hwn, nid dyddiad y lleoliad yn ôl unrhyw ddogfen gyfreithiol. Nid oes angen unrhyw dystiolaeth o fabwysiadu gan yr aelod er mwyn bod â hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu. Ni fyddai mabwysiadu mwy nag un plentyn ar yr un adeg yn galluogi aelod i gymryd sawl cyfnod o absenoldeb mabwysiadu.
18. Gall aelod sy'n bodloni amodau rhagnodedig ynglŷn â'u perthynas â pherson arall sy'n mabwysiadu plentyn gymryd pythefnos o absenoldeb mabwysiadu newydd. Nid oes gan aelod hawl i gymryd absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb mabwysiadu newydd mewn perthynas â'r un plentyn. Ni fyddai mabwysiadu mwy nag un plentyn ar yr un adeg yn galluogi aelod i gymryd sawl cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd. Os yw aelod yn mabwysiadu plentyn ar y cyd ag aelod arall, gall un aelod ddewis fod yn fabwysiadu y plentyn at ddibenion y Rheoliadau a bod â'r hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu. Ni fyddai gan yr aelod arall hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu, ond byddai ganddo/ganddi'r hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd.
19. Bydd gan aelod hawl i absenoldeb rhiant os yw'n dod yn gyfrifol am ofalu am blentyn dan 14 oed. Rhaid i'r aelod hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd o'r cyfrifoldeb hwn a rhaid i'r Pennaeth fod yn fodlon bod cyfrifoldeb o'r fath yn un gwirioneddol ac efallai y bydd angen cyflwyno dystiolaeth ategol.
20. Nid yw cyfrifoldeb am blentyn at ddibenion Rhan 5 o'r Rheoliadau wedi'i gyfyngu i aelodau sy'n derbyn cyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989. Y bwriad yw y byddai absenoldeb rhiant ar gael i aelodau sy'n dod yn gyfrifol dros dro am ofal plentyn yn ogystal ag aelodau sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau mwy parhaol. Er enghraifft, byddai gan aelod sy'n cymryd cyfrifoldeb am ofal plentyn tra bo'r rhiant yn methu cyflawni eu cyfrifoldebau dros dro am resymau fel salwch, hawl i gyfnod o absenoldeb rhiant.
21. Gall aelod benderfynu gwasgaru absenoldeb rhiant dros gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn o'r adeg y daeth yr aelod yn gyfrifol am y plentyn. Rhaid i'r aelod hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd ei fod am wasgaru'r cyfnodau absenoldeb ymlaen llaw, er na ddisgwylir i'r aelod hysbysu'r Pennaeth o ddyddiad dechrau a hyd pob cyfnod absenoldeb rhiant o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r aelod geisio hysbysu'r Pennaeth am y cyfnodau absenoldeb y bwriedir eu cymryd os yw hynny'n bosibl. Fodd bynnag, derbynnir na fydd hyn yn bosibl bob amser ac na fyddai'n rhoi digon o hyblygrwydd. Mewn achosion fel hyn, cyhyd ag yr hysbysir y Pennaeth ar y dechrau o fwriad cyffredinol yr aelod o ran cymryd absenoldeb ac yr hysbysir y Pennaeth cyn pob cyfnod absenoldeb unigol, byddai gan yr aelod hawl i gyfnodau o absenoldeb rhiant.
22. Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd hysbysu cadeirydd yr awdurdod lleol, cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd ac arweinwyr pob grŵp gwleidyddol o'r awdurdod am unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol cyn iddo gael ei gymryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Mae gan y Pennaeth y rhyddid i hysbysu unrhyw bobl eraill os yw'n credu bod angen gwneud hynny. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys aelodau'r awdurdod sy'n cynrychioli'r un is-adrannau neu rai cyfagos.

23. Ar ôl cael gwybodaeth gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn bosibl nad oes gan aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, gall awdurdod lleol benderfynu dileu neu gwtogi absenoldeb teuluol aelod os yw'n credu bod yr absenoldeb a ganiatawyd yn dwyllodrus, wedi'i gamddefnyddio neu nad oes gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol. Byddai modd i'r awdurdod, mewn sefyllfa o'r fath, benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at ei Bwyllgor Safonau i'w ystyried
24. Gall aelod apelio yn erbyn penderfyniad i ddiddymu hawl i absenoldeb teuluol. Rhaid cyflwyno cwyn ysgrifenedig, er y byddai cwyn ar ffurf electronig yn bodloni'r gofyniad hwn, fel y nodir uchod. Yna, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r gŵyn i gadeirydd yr awdurdod lleol a fyddai'n gorfod ei chyflwyno i banel o dri aelod a benodir gan yr awdurdod at y diben (ni chaiff y panel gynnwys cadeirydd nac aelod llywyddol yr awdurdod).
25. Yna, bydd y panel yn penderfynu ar y gŵyn. Bydd y panel yn penderfynu a oes gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau ai peidio. Pan fo'r panel yn penderfynu bod gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, bydd yr aelod hwnnw'n cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol yn unol â'r Rheoliadau.
26. Mae'n bosibl y bydd cyfnod o absenoldeb teuluol wedi'i ganslo gan yr awdurdod lleol hanner ffordd drwy'r cyfnod. Ar ôl cael ei sefydlu i ystyried cwyn, gallai'r panel wedyn benderfynu bod gan yr aelod hawl mewn gwirionedd i gyfnod o absenoldeb teuluol. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb i'r graddau a nodir o dan y Rheoliadau.
27. Pan fo panel yn penderfynu nad oes gan aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol, ni fydd yr aelod yn gymwys i gael cyfnod o absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau ac felly disgwylir iddo barhau â'i ddyletswyddau fel aelod.
28. Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol gynnwys darpariaethau sy'n disgrifio o dan ba amgylchiadau y gall aelod ar absenoldeb mamolaeth neu riant (yn unig) barhau i gyflawni rhai dyletswyddau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylai hyn alluogi i aelod ar absenoldeb o'r fath fynychu cyfarfod penodol neu fath o gyfarfod neu gyflawni dyletswydd benodol neu fath o ddyletswydd ar ôl derbyn caniatâd gan gadeirydd yr awdurdod lleol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol os oes gan yr aelod ddiddordeb penodol hysbys mewn mater neu os trafodir materion brys a allai effeithio ar eu hardal leol. Cyn cytuno i gais o'r fath, rhaid i gadeirydd awdurdod hysbysu arweinwyr pob grŵp gwleidyddol ar y cyngor. Os oes anghytundeb, dylai panel a sefydlir fel yr uchod wneud y penderfyniad terfynol.
29. Dylai rheolau sefydlog hefyd bennu a ddylai unrhyw ddyletswydd a roddir i aelodau gael eu cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol. Er enghraifft, gallai hyn olygu bod modd gofyn i aelod ar absenoldeb teuluol fynychu cyfarfod pe na bai digon o aelodau i gynnal y cyfarfod fel arall. Gallai'r rheolau sefydlog alluogi trefniadau gwahanol i gael eu gwneud ar gyfer gwahanol aelodau. Efallai bod gan aelod arbenigedd mewn maes penodol a fyddai'n ei gwneud yn anodd i rywun arall gymryd ei le dros dro, a allai awgrymu y gellid disgwyl ymrwymiad cyfyngedig o hyd gan aelod o dan amgylchiadau a ddiffinnir. Fodd bynnag, ni ddylai effaith darpariaeth o'r fath o dan y rheolau sefydlog fod yn groes i ddiben y Mesur a'r Rheoliadau.

30. Dylid nodi na ddylai absenoldeb aelod am resymau absenoldeb teuluol sbarduno unrhyw broses o ailddyrrannu cynrychiolaeth yn unol â chydbwysedd gwleidyddol. Ar gyfer cyfrifiadau o'r fath, dylid trin yr aelod fel aelod llawn o'r cyngor ac felly dylai unrhyw drefniadau dirprwyo fod yn agored i aelodau o'r un grŵp gwleidyddol yn unig.

**Ffurflen  
ymateb i'r  
ymgyngoriad:**

Enw:

Sefydliad:

e-bost:

Cyfeiriad:

**Cwestiynau**

Q1 Ydych chi'n cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn hyd absenoldeb mabwysiadu i gynghorwyr o 2 wythnos i 26 wythnos i gyd-fynd â threfniadau tebyg ar gyfer absenoldeb mamolaeth?

Ydw / Nac ydw

Ychwanegwch unrhyw sylwadau

Q2 Ydych chi'n cytuno a'r newidiadau a amlinellir ym Mharagraff 12 uchod?

Ydw / Nac ydw

Ychwanegwch unrhyw sylwadau

C3 Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau statudol diwygiedig yn yr atodiad i'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig ym mharagraffau 11 a 12 uchod?

Ydw / Nac ydw

C4 Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ychwanegol am y newidiadau a gynigir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rhowch nhw yn y blwch isod.